

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Y BIL ARCHWILIO AC ATEBOLRWYDD LLEOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cafodd y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Gellir gweld y Bil yma:  
<http://services.parliament.uk/bills/2013-14/localauditandaccountability.html>.

#### **Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi**

3. Noddir y Bil gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae amcanion polisi'r Bil yn cydymffurfio ag ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddileu'r Comisiwn Archwilio, sefydlu trefniadau wedi'u mireinio ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus lleol a chynyddu atebolrwydd lleol.
4. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn darparu ar gyfer dileu'r Comisiwn Archwilio, sy'n gyfrifol am gyfundrefn archwilio'r awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr. Mae'r Bil yn nodi fframwaith newydd ar gyfer archwilio ac atebolrwydd lleol i gyrff cyhoeddus lleol yn Lloegr, sy'n caniatáu i'r cyrff hynny benodi eu harchwilwyr allanol annibynnol eu hunain. Bydd yna fframwaith archwilio newydd i gyrff iechyd lleol hefyd. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifon awdurdodau lleol ac archwilio'r cyfrifon hynny ac mae'n gwneud darpariaeth ynghylch penodi, swyddogaethau a rheoleiddio awdurdodau lleol.

#### **Y darpariaethau yn y Bil y gofynnir am gydsyniad iddynt**

5. Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad i'r trefniadau ynglŷn ag archwilio a chyhoeddi gwybodaeth yn achos Byrddau Draenio Mewnol (IDBs) y mae rhan o'u hardaloedd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae IDBs sydd yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr yn cael eu harchwilio yn unol â'r gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig a nodir yn Neddf y Comisiwn Archwilio 1998. Oni bai bod darpariaeth yn cael ei gwneud i archwilio IDBs sy'n croesi'r ffin, bydd dileu'r Comisiwn Archwilio'n golygu na fyddant yn dod o dan yr un gyfundrefn archwilio pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym.

6. Ceir tri IDB yng Nghymru, sef IDB Gwastadeddau Caldicot a Gwynllŵg (sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru), IDB Gwy Isaf ac IDB Powysland (sydd yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr).
7. Yn benodol, bydd darpariaethau'r Bil yn golygu y daw'r ddau IDB sy'n croesi'r ffin yn dod o dan y gyfundrefn archwilio newydd, sy'n cael ei chyflwyno yn Lloegr yn achos "awdurdodau llai". Fe fyddan nhw hefyd yn dod o dan yr un darpariaethau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth a fydd yn gymwys i'r "awdurdodau llai" yn Lloegr.
8. Dyma nodweddion allweddol y fframwaith newydd i awdurdodau llai sydd i'w nodi mewn rheoliadau:
  - Trothwy o £25,000 na fydd yr awdurdodau llai yn cael eu harchwilio odano;
  - Gofynion ehangach ynghylch tryloywder drwy ehangu'r darpariaethau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth gan awdurdodau lleol;
  - Cyfundrefn reoleiddio gymesur, a chadw'r dull archwilio sicrwydd cyfyngedig gan ragnodi hwnnw mewn Atodlen i'r Cod Ymarfer Archwilio a gynhyrchir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
  - Y gallu i'r awdurdodau lleol sicrhau a phenodi gwasanaethau archwilio yn unigol neu ar y cyd â defnyddio panel o archwilwyr allanol.
9. Mae Cymal 2 o'r Bil yn darparu bod y Bil yn gymwys i'r "awdurdodau perthnasol" sydd wedi'u rhestru, yn Atodlen 2. Mae'r rhestr yn Atodlen 2 yn cynnwys, ym mharagraff 26, Fyrddau Draenio Mewnol ("IDB") (a) yn gyfan gwbl yn Lloegr neu (b) yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr.
10. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran materion ym mharagraffau 6 (Draenio tir a gwella tir ), a 19 (Rheoli perygl llifogydd) ac y gallai'r Cynulliad basio deddfwriaeth debyg o ran yr IDB trawsffiniol sy'n arfer rhan o'i swyddogaethau yng Nghymru (fel sy'n wir ar hyn o bryd).
11. Mae'r darpariaethau hefyd yn ymwneud â pharagraff 14 (Archwilio, arholi, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus archwiliadwy) am fod IDBs yn "awdurdodau cyhoeddus archwiliadwy" sy'n dod o fewn cwrdd is-baragraffau (f) a (d) ym mharagraff 14 yn yr ystyr eu bod yn dyroddi ardollau a phraeseptau a bod gan Weinidogion Cymru swyddogaethau ynglŷn â nhw.
12. Nid yw'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

13. Barn Llywodraeth Cymru yw bod penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddileu'r Comisiwn Archwilio yn creu canlyniadau ar gyfer y trefniadau archwilio presennol i'r ddau IDB sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae angen sefydlu trefniadau archwilio newydd a chan fod y ddau awdurdod hyn yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd yn unol â chyfundrefn archwilio Lloegr, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau yn y Bil hwn i'r Deyrnas Unedig gan mai dyna'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i ganiatáu i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys o ran yr elfennau hynny ar y cyrff hyn sy'n ymwneud â Chymru.

### **Goblygiadau ariannol**

14. Does dim goblygiadau ariannol wedi'u rhag-weld o ran Llywodraeth Cymru. Mae'r IDBs yn cael eu hariannu drwy ardrethi draenio ar feddianwyr yr holl dir amaethyddol yn eu hardaloedd, ardoll arbennig ar yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'u cyfansoddiad ac incwm o waith preifat. Yn achos y ddau IDB trawsffiniol, sy'n cynnwys rhannau o Gymru, bydd yr awdurdodau yng Nghymru sy'n rhan o'u cyfansoddiad yn gorfod talu ardoll mewn cyfrannedd â'r arwynebedd o dan sylw.

**Alun Davies AC**  
**Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd**  
**Mai 2013**